

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Ile rhoddwyd rhybudd)

Deintyddfa Denise Adams /
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Dyddiad yr arolygiad: 12 Mehefin
2017

Dyddiad cyhoeddi: 13 Medi 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	18
4.	Beth sydd nesaf?	20
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	21
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	22
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	23
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	24

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod pobl Cymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn sicrhau bod profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu'n agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol ar sail yr hyn rydym yn ei weld
- Cydweithredol: rydym yn adeiladu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull o weithredu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gymesur.

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Mynegi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliannau trwy adrodd a rhannu arferion da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiâu, safonau ac arferion.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ddeintyddfa Denise Adams, 56 Stryd Fawr, Hirwaun, Aberdâr, CF44 9SW, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, ar 12 Mehefin 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys rheolwr arolygu AGIC (arweinydd yr arolygiad) ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Bu AGIC yn archwilio sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Deintyddfa Denise Adams yn bodloni'r safonau gofynnol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Canfuom fod y cleifion yn cael eu trin â pharch, bod gan y practis brosesau priodol ar gyfer sicrhau bod offer yn ddiogel i'w defnyddio, a bod gan y practis amrediad o bolisiâu a gweithdrefnau i sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu mewn modd diogel ac effeithiol. .

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperid
- Roedd cofnodion cleifion yn drylwyr ac wedi'u dogfennu'n dda
- Dangosodd y staff broses drwyadl ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol
- Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael a oedd yn dangos bod offer pelydr-X a chyfarpar dadheintio'n cael eu defnyddio â'r nod o hyrwyddo diogelwch staff a chleifion
- Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan uwch-staff a thîm ehangach y practis.

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwirio a chofnodi cyffuriau ac offer brys
- Proses ar gyfer adolygu cymheiriaid.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Deintyddfa Denise Adams yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Hirwaun yn ne Cymru. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys un deintydd a dwy nyrs ddeintyddol sy'n rhannu dyletswyddau derbynfa.

Mae'r practis yn darparu amrediad o wasanaethau deintyddol cyffredinol y GIG yn unig.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom fod cleifion yn cael eu trin ag urddas, parch a charedigrwydd gan holl dîm y practis. Dywedodd y cleifion a roddodd sylwadau eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperid gan y practis.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn casglu safbwyntiau ynghylch y gwasanaethau deintyddol a oedd yn cael eu darparu. Cafodd cyfanswm o 38 holiadur eu cwblhau a'u dychwelyd. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

'Dw i bob amser wedi derbyn gwasanaeth o'r radd flaenaf yn y practis hwn'

'Dim angen unrhyw welliannau. Practis rhagorol'

'Mae bob amser yn bleser gennyf weld y deintydd a'i thîm. Maent bob amser yn gwneud imi ymlacio ac yn rhoi gofal gwych imi'

'Dw i wedi bod yn glaf nerfus erioed, ond dyma'r practis gorau dw i wedi'i fynychu'

Cadw'n iach

Canfuom fod gan y practis amrediad mawr o daflenni gwybodaeth hyrwyddo iechyd ar gael yn y man aros. Byddai hyn yn helpu i hysbysu cleifion am yr angen i ofalu am eu hiechyd a'u hylendid eu hunain.

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynghylch sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Gofal ag urddas

Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn modd cyfeillgar, parchus a phroffesiynol. Cytunodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael

eu trin â pharch ac wedi derbyn croeso cynnes pan wnaethant ymweld â'r practis.

Roedd y practis yn gallu rhoi preifatrwydd i gleifion pe baent am drafod gwybodaeth bersonol neu gyfrinachol â'r tîm deintyddol, i ffwrdd o'r cleifion eraill.

Gwybodaeth cleifion

Roedd y practis yn darparu amrediad o driniaethau deintyddol y GIG. Roedd gwybodaeth am brisiau ar gyfer triniaethau deintyddol y GIG yn cael ei harddangos yn y man aros. Roedd hyn yn golygu bod gan gleifion fynediad rhwydd at wybodaeth am faint y gallai eu triniaeth gostio.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod cost eu triniaeth bob amser yn cael ei hesbonio'n glir cyn iddynt dderbyn y driniaeth. Fodd bynnag, dywedodd bron i un o bob tair rhan o'r cleifion a gwblhaodd holiadur nad oeddent yn deall sut roedd cost eu triniaeth yn cael ei chyfrifo.

Yn ddieithriad, dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi derbyn gwybodaeth am eu triniaeth ddeintyddol, gan gynnwys yr opsiynau a oedd ar gael. Gwelsom hefyd dystiolaeth o gynllunio triniaeth ac opsiynau'n cael eu nodi o fewn sampl o gofnodion cleifion y gwnaethom eu harchwilio. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch eu triniaeth.

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent yn dymuno mewn unrhyw benderfyniadau a wnaed am eu triniaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi llwyddo i siarad â staff yn eu hiaith ddewisol. Dywedodd y cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi'u helpu i ddeall yr holl opsiynau a oedd ar gael iddynt pan oedd angen triniaeth.

Gofal amserol

Canfuom fod y practis yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Disgrifiodd staff y broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi i amser eu hapwyntiad. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym nad oeddent wedi profi oedi wrth gael eu gweld gan y deintydd.

Roedd rhif ffôn y tu allan i oriau ar gael i gleifion pe bai angen triniaeth ddeintyddol frys arnynt y tu allan i oriau. Roedd y rhif ffôn yn cael ei arddangos yn ffenestr y practis ac yn cael ei roi ar neges y peiriant ateb. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion, a chanfuom fod yr holl opsiynau triniaeth yn cael eu cofnodi a bod pob claf wedi rhoi cydsyniad i'w driniaeth.

Gwnaeth yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur gadarnhau bod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

Hawliau pobl

Roedd y practis wedi'i leoli mewn adeilad tri llawr, gyda'r ystafell driniaeth ar y llawr cyntaf. Er bod y dderbynfa a'r man aros yn hygyrch i gleifion a chanddynt anawsterau symudedd, ni fyddai cleifion sy'n defnyddio cadeiriau olwyn neu'r rhai nad ydynt yn gallu defnyddio grisiau'n gallu cael mynediad at wasanaethau deintyddol yn y practis hwn. Dywedodd perchennog y practis ei bod yn ymchwilio i'r opsiwn o osod ystafell driniaeth ar y llawr daear, ond ei bod wedi dod i'r casgliad nad oedd hyn yn opsiwn hyfyw ar y pryd. Dywedodd y practis wrthym y byddent yn cyfeirio cleifion nad oeddent yn gallu cael mynediad at eu gwasanaethau at ddeintyddfa arall.

Gwrando a dysgu o adborth

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ysgrifenedig. Roedd gwybodaeth i gleifion am sut i leisio pryder (cwyn) wedi'i harddangos yn y dderbynfa. Dywedodd tua un o bob tair rhan o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn am y gwasanaethau deintyddol roeddent yn eu derbyn. Efallai y byddai'r practis am ystyried sut y gallant wella ymwybyddiaeth y cleifion o'r broses hon.

Er nad oedd y practis wedi derbyn unrhyw gwynion, gwnaethant ddisgrifio proses briodol ar gyfer cynnal gofnodion ac ymdrin â chwynion naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Gwelsom fod cleifion yn gallu rhoi adborth ynglŷn â'r gwasanaethau a ddarperir trwy flwch sylwadau yn nerbynfa'r practis. Gwelsom hefyd fod y practis wedi

cwblhau arolwg cleifion o fewn y 12 mis diwethaf, a bod y wybodaeth wedi cael ei dadansoddi'n briodol fel ffordd o asesu'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer cleifion.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom fod y practis yn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Gwelwyd bod adeilad y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, y tu mewn a'r tu allan.

Roedd cofnodion cleifion wedi cael eu cynnal yn dda ac yn dangos bod gofal a thriniaeth wedi cael eu cynllunio er mwyn hyrwyddo diogelwch a lles cleifion.

Dangoswyd proses drwyadl ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol.

Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael i ddangos bod yr offer pelydr-X a'r cyfarpar dadheintio'n cael eu defnyddio mewn modd diogel.

Roedd angen cofnodi gwiriadau rheolaidd o'r cyffuriau a'r offer brys.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld â'r practis.

Yn ôl pob golwg, roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda – y tu mewn a'r tu allan. Yn ystod taith o amgylch yr adeilad, gwelsom fod pob ardal yn lân ac yn daclus heb unrhyw beryglon amlwg. Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn lân iawn.

Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn gwahanol leoliadau o amgylch y practis a gwelsom fod yr offer hyn wedi cael eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf i sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn.

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal ar gyfarpar trydanol y practis o fewn y 12 mis diwethaf, i helpu i sicrhau bod yr offer yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd contract ar waith ar gyfer symud a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gynhyrchir gan y practis mewn dull diogel. Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei storio'n ddiogel wrth aros i gael ei gasglu gan y cwmni contractwyr. Gosodwyd offer didoli amalgam er mwyn tynnu gronynnau amalgam (math o sylwedd deintyddol sy'n cynnwys mercwri) a geir mewn llenwadau deintyddol o ddŵr gwastraff cyn cael gwared arnynt yn ddiogel. Dywedodd y practis wrthym eu bod yn cynhyrchu ychydig bach iawn o wastraff nad yw'n beryglus (gwastraff domestig), ac y gwaredid arno mewn modd priodol.

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis ystafell ddadheintio neilltuedig a oedd yn bodloni'r egwyddorion a amlinellir yn nogfen polisi a chyfarwyddyd Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1).¹

Roedd yr offer dadheintio a'r cypyrddau yn yr ystafell ddadheintio i'w gweld mewn cyflwr da. Roedd arwynebau gwaith a'r llawr yn hawdd eu glanhau er mwyn hwyluso glanhau trwyadl a lleihau croes-heintio.

Roedd gan y practis y defnydd o ddau beiriant awtoclaf² a pheiriant golchi dadheintio³ a gwelsom dystysgrif arolygu i ddangos eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom fod gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal a bod llyfrau

¹ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ynglŷn â dadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

² Siambr pwysedd yw peiriant awtoclaf a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau trwy orfodi ager dirlawn pwysedd uchel arnynt.

³ Mae peiriant golchi dadheintio yn ddull awtomatig ar gyfer glanhau offer deintyddol cyn iddynt gael eu sterileiddio.

cofnodion yn cael eu cadw, fel yr argymhellir gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, ar gyfer profion ar offer glanhau a sterileiddio, i ddangos eu bod yn parhau i fod yn ddiogel i'w defnyddio.

Dangosodd y staff broses ddadheintio drylwyr, a gwelsom dystysgrifau i ddangos bod y staff wedi mynychu hyfforddiant ar ddadheintio. Roedd yr offer yn cael eu cadw mewn bagiau wedi'u selio er mwyn atal croes-heintio.

Canfuom fod y practis wedi cynnal nifer o archwiliadau rheoli heintiau i nodi meysydd i'w gwella a'u datblygu fel rhan o'r gwaith monitro cyffredinol ar gyfer sicrhau ansawdd. Lle roedd meysydd i'w gwella wedi cael eu nodi gan y practis, gwelsom ei fod wedi cymryd camau i roi sylw i'r materion o dan sylw. Gwnaethom argymhell bod y practis yn nodi dyddiad yr archwiliadau sydd wedi cael eu cwblhau i sicrhau bod staff yn rhoi sylw i unrhyw welliannau ac yn defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod offer a chyffuriau ar gael i'w defnyddio pe bai argyfwng gyda chlaf (llewygu/cwmp). Er inni weld bod yr holl gyffuriau ac offer brys o fewn eu dyddiadau dod i ben, nid oedd y practis yn cynnal llyfr lòg o wiriadau rheolaidd ar y cyffuriau a'r offer. Gwnaethom argymhell bod y practis yn gweithredu system ar gyfer cofnodi bod gwiriadau'n cael eu cynnal ar y cyffuriau a'r offer brys yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU).⁴ Cytunodd y practis i wneud hyn.

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd o fewn y 12 mis diwethaf.

Nid oeddem yn gallu cadarnhau bod gan y practis unigolyn penodedig i ymdrin â threfniadau cymorth cyntaf o fewn y practis. Gwnaethom argymhell y gallai'r practis ystyried canllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch⁵ mewn

⁴ Mae'r [Cyngor Dadebru \(DU\)](#) yn bodoli i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu.

⁵ <http://www.hse.gov.uk/pubns/indg214.pdf>

perthynas â swyddogion cymorth cyntaf penodedig a hyfforddedig yn y gweithle. Cytunodd y practis i ystyried gwneud hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal a'u cofnodi ar y cyffuriau a'r offer brys yn unol â'r canllawiau a amlinellir gan Gyngor Dadebru'r DU.

Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd gweithdrefn wedi'i sefydlu yn y practis i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Gwelsom fod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn oedolion, a gwelsom gadarnhad bod hyfforddiant amddiffyn plant wedi cael ei drefnu ar gyfer yr holl staff ar y diwrnod ar ôl yr arolygiad.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo y gallent leisio unrhyw bryderon cysylltiedig â'r gwaith, a'u bod yn hyderus y byddai'r rhain yn derbyn sylw.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar yr ystafell driniaeth yn y practis, a nodi ei bod yn lân ac yn daclus. Roedd y lloriau a'r arwynebau yn yr ystafell driniaeth yn hawdd eu glanhau er mwyn lleihau croes-heintio. Canfuom fod yr offerynnau deintyddol yn yr ystafell driniaeth mewn cyflwr da ac roedd digon ohonynt.

Daethom i'r casgliad bod gan y practis drefniadau ar waith i ddefnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel. Mae hyn oherwydd bod y dogfennau a'r wybodaeth ofynnol ynglŷn â defnyddio'r offer pelydr-X yn ddiogel ar gael ac yn gyfredol.

Gwelsom dystysgrifau hyfforddi a oedd yn dangos bod y staff i gyd wedi diweddarau eu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio, a'u bod yn bodloni'r canllawiau a amlinellir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

Gwelsom fod archwiliadau o ansawdd delweddau pelydr-X wedi cael eu cwblhau'n rheolaidd fel rhan o'r gwaith monitro ar gyfer sicrhau ansawdd. Mae'r archwiliadau hyn yn nodi problemau posibl wrth gynnal sganiau pelydr-X, ac yn dangos lle y dylid gwneud gwelliannau os oes angen.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd y practis yn cynnal amrediad o archwiliadau i fonitro ansawdd a diogelwch y gofal a'r driniaeth a ddarperir i gleifion. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau clinigol i nodi meysydd i'w gwella a gwiriadau ar offer i wneud yn siŵr eu bod yn gweithio'n effeithiol. Rhoddwyd sicrwydd inni fod amrediad o archwiliadau yn cael eu cynnal yn y practis.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Nid oeddem yn galluogi cadarnhau bod gan y practis broses ar waith ar gyfer adolygu gan gymheiriaid. Byddai proses o'r fath â'r potensial i gefnogi staff yn y gwaith o wella'r practis. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis gyflwyno proses ar gyfer cynnal adolygiadau gan gymheiriaid fel modd o nodi gwelliannau o ran ymarfer.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis weithredu proses ar gyfer cynnal adolygiadau clinigol gan gymheiriaid.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cynnal ar fformat papur a chanfuom eu bod yn cael eu storio'n ddiogel mewn cypyrddau o dan glo.

Cadw cofnodion

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion deintyddol cleifion er mwyn asesu ansawdd y cofnodion. Roedd y nodiadau a wnaed yn fanwl ac yn dangos bod gofal a thriniaeth wedi cael eu cynllunio er mwyn hyrwyddo diogelwch a lles cleifion. Roedd y practis wedi cynnwys meysydd eraill i'w gofnodion o fewn cofnodion cleifion yn ddiweddar, a gwnaethom gydnabod bod y gwaith o gadw cofnodion yn well yn y cofnodion cleifion diweddaraf a welwyd. Gwnaethom

argymell bod y deintydd yn parhau i gofnodi'r canlynol o fewn cofnodion cleifion yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion:

- Defnydd cleifion o alcohol a thybaco ynghyd ag unrhyw gyngor hybu iechyd a roddir. Byddai hyn yn dangos bod asesiad o berygl claf o ddatblygu canser y geg wedi cael ei ystyried a bod cyngor wedi cael ei ddarparu ynghylch sut y gellid lleihau hyn.
- Cydsyniad llafar cleifion i driniaeth.
- Canlyniadau archwiliadau periodontol sylfaenol.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Y prif ddeintydd oedd perchennog a rheolwr y practis ac roedd hi'n derbyn cymorth gan dîm bach.

Gwelsom fod amrediad o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn derbyn cefnogaeth dda yn eu rolau a'u bod yn derbyn cyfleoedd i fynychu hyfforddiant perthnasol i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y prif ddeintydd yw perchennog a rheolwr Deintyddfa Denise Adams, ac mae'n derbyn cymorth gan ddau aelod o staff sy'n rhannu'r cyfrifoldeb am ddyletswyddau'r dderbynfa a nyrsio deintyddol. Canfuom fod dull y tîm practis bach yn drefnus ac yn rhagweithiol. Cafodd llinellau eglur o adrodd ac atebolrwydd eu disgrifio gan bob un o aelodau tîm y practis. Pan wnaethom nodi meysydd i'w gwella, gwnaeth perchennog y practis ddangos parodrwydd ac ymroddiad i fynd i'r afael â'r rhain ar unwaith.

Dywedodd y staff a oedd yn gweithio ar ddiwrnod ein harolygiad wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o gefnogaeth yn eu swyddi. Gwelsom fod y staff yn glir ac yn wybodus ynghylch eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Fel tîm bach, roedd cyfathrebu'n cael ei gynnal yn anffurfiol gyda chyfarfodydd a thrafodaethau anffurfiol yn cael eu cynnal bob dydd. Gwnaethom argymhell y gallai'r practis ystyried, lle bo hynny'n briodol, dogfennu cyfarfodydd tîm lle mae'r wybodaeth sy'n cael ei rhannu a'i thrafod yn fwy ffurfiol.

Gwelsom fod amrediad o bolisiâu a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion. Roedd y practis yn gallu dangos bod polisiâu a gweithdrefnau wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd ac wedi cael eu cyfleu i staff.

Staff ac adnoddau

Gweithlu

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod staff wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w swyddi. Gwnaeth y staff gadarnhau hefyd eu bod yn cael eu cefnogi a'u hannog gan berchennog y practis i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi. Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod yr holl staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant mewn meysydd y mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn eu 'hargymell yn gryf iawn'.

Dywedodd staff wrthym fod arfarniad o'u perfformiad wedi cael ei gynnal gan y deintydd.

Gwelsom fod yr holl staff wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer ymarfer ac roedd yswiriant indemnïad ar waith.

Roedd cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod y staff wedi derbyn brechiadau rhag Hepatitis B, i amddiffyn eu hiechyd eu hunain ac iechyd cleifion rhag heintiau. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis gadw canlyniadau brechiadau staff i sicrhau bod y cofnodion yn gyflawn. Cytunodd perchennog y practis i wneud hyn. Roedd cyngor a chymorth iechyd galwedigaethol ar gael trwy'r bwrdd iechyd.

4. Beth sydd nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon sydd angen sylw ar unwaith yn ystod ein harolygiad, sy'n gofyn am gamau gweithredu gan y gwasanaeth, mae'r rhain yn cael eu nodi yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle mae'r rhain yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon sydd angen sylw ar unwaith mewn perthynas â diogelwch cleifion, lle rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maent yn eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu maent yn eu cymryd i roi sylw i'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws adrannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn fel y bydd trefniadau yn gallu cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o amhariad â phosibl i gleifion.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2008](#)<http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made> a [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) \(Diwygio\) 2011](#). Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Datguddio Meddygol\) 2000](#), ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon dybryd a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon a oedd angen sylw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Deintyddfa Denise Adams

Dyddiad yr arolygiad: 12 Mehefin 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon ar unwaith ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maen nhw'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni chyflwynwyd unrhyw ofynion sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth: Denise Adams

Enw (llythrennau bras): Denise Adams

Swydd: Deintydd

Dyddiad: 14.07.2017

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Deintyddfa Denise Adams

Dyddiad yr arolygiad: 12 Mehefin 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y maen nhw'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad.				
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r practis sicrhau bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal a'u cofnodi ar y cyffuriau a'r offer brys yn unol â'r canllawiau a amlinellir gan Gyngor Dadebru'r DU.	2.6 Rheoli meddyginiaethau	Mae gwiriadau wythnosol a lòg wedi cael eu cyflwyno yn lle'r gwiriadau misol. Mae'r diffibriliwr yn cael ei wirio bob dydd fel yr oedd yn flaenorol.	Anne-Marie Williams	Cwblhawyd ar unwaith
Dylai'r practis weithredu proses ar gyfer cynnal adolygiadau clinigol gan gymheiriaid.	3.3 Gwella ansawdd, ymchwil	Rydym wedi ymuno â dau bractis lleol i greu grŵp adolygu gan gymheiriaid.	Denise Adams	Cwblhawyd ar unwaith

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	ac arloesi			
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Denise Adams

Swydd: Deintydd

Dyddiad: 14.07.2017